# Templed enghreifftiol ar gyfer Polisi Ysgol ar Addysg Rhyw

## Cyflwyniad
Dylai'r polisi roi esboniad byr i ddangos sut mae'n mynd i'r afael â'r gofynion cyfreithiol, strategaethau cenedlaethol a chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, megis:
- Deddf Addysg 1996
- Cynllun Gweithredu Iechyd a Lles Rhywiol ar gyfer Cymru, 2010 -2015
- canllawiau ar addysg rhyw a pherthnasoedd (ARhPh) yn yr ysgolion
- gofynion y *Fframwaith addysg bersonol a chymdeithasol ar gyfer dysgwyr 7 i 19 oed.*

## Cysylltiadau â pholisïau eraill
Dylai'r polisi gynnwys croesgyfeiriadau at bolisïau perthynol, a allai gynnwys:
- addysg bersonol a chymdeithasol (ABCh)
- cyfrinachedd
- diogelu/amddiffyn plant
- atal bwlio (gan gynnwys gweithdrefnau i ymdrin â bwlio homoffobig)
- cydraddoldeb ac amrywiaeth.

## Sail resymegol
Dylai'r polisi amlinellu gweledigaeth yr ysgol o ARhPh yn fframwaith gwerthoedd yr ysgol.

## Nodau
Dylai'r polisi amlinellu nodau penodol yr ysgol ar gyfer ARhPh a'r deilliannau a ddisgwylir i'r dysgwyr.

## Rheoli a threfnu ARhPh
Dylai'r polisi roi disgrifiad byr o rolau a chyfrifoldebau penodol y canlynol:
- y corff llywodraethu
- y pennaeth a'r arweinwyr uwch
- y cydlynydd ABCh/ARhPh.

## Cyflwyno'r rhaglen ARhPh
Dylai'r polisi roi disgrifiad byr o sut mae ARhPh yn ffurfio rhan o ddarpariaeth ABCh yr ysgol a'r cyfraniad sy'n cael ei wneud gan feysydd eraill yn y cwricwlwm at gyflwyno ARhPh. Gallai'r wybodaeth sy'n benodol i'r ysgol gynnwys:
- pwy sy'n gyfrifol am ddarparu'r rhaglen, e.e. athro/athrawes/tiwtor dosbarth, staff sydd wedi'u hyfforddi'n arbennig, gweithwyr iechyd proffesiynol
- cyfansoddiad y grwpiau addysgu, e.e. grwpiau rhyw cymysg
- y dyraniad amser.

## Cynnwys y rhaglen ARhPh
Dylai'r polisi nodi cynnwys y rhaglen ARhPh i bob grŵp blwyddyn, gan grynhoi pa bryd y cyflwynir y themâu allweddol. Gallai hyn gael ei gyflwyno ar ffurf grid sy'n dangos trosolwg o'r cwricwlwm gan ddangos y parhad a'r dilyniant yn y cyfnodau allweddol ac ar eu traws.

**Materion penodol iechyd rhywiol**
Dylai'r polisi roi disgrifiad byr o baramedrau penodol yr ysgol ynglŷn ag addysgu materion a allai fod yn sensitif.

**Adnoddau**
Dylai'r polisi roi disgrifiad byr o'r adnoddau penodol fydd yn cael eu defnyddio i gyflwyno'r rhaglen ARhPh.

**Cyfrinachedd**
Dylai'r polisi amlinellu:
- pa gymorth ychwanegol y caiff yr athrawon ei roi i ddysgwyr ynghylch cyngor, cwnsela a thriniaeth
- sut yr ymdrinnir â datgeliadau personol i athrawon.

**Cynnwys y dysgwyr**
Dylai'r polisi bennu sut y gofynnir am farn y dysgwyr a disgrifio sut mae'r rhaglen ARhPh yn bodloni anghenion yr holl ddysgwyr gan gynnwys:
- sut yr ymdrinnir ag anghenion penodol bechgyn a merched
- sut yr ymdrinnir â safbwyntiau dysgwyr o gefndiroedd diwylliannol a chrefyddol gwahanol.

**Datblygu proffesiynol parhaus**
Dylai'r polisi esbonio'r trefniadau ar gyfer y canlynol:
- nodi anghenion y staff o ran datblygu proffesiynol
- bodloni anghenion hyfforddi'r staff allweddol
- rhannu arferion effeithiol.

**Gweithio gyda rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach**
Rhaid i'r polisi gynnwys datganiad pendant am hawl rhieni/gofalwyr i dynnu eu plentyn yn ôl o addysg rhyw a sut mae ceisiadau felly'n cael eu rheoli. Dylai'r polisi esbonio hefyd y trefniadau ar gyfer y canlynol:
- ymgynghori â rhieni/gofalwyr a'r gymuned ehangach
- trefnu bod y polisi ar gael i rieni/gofalwyr, e.e. yn llawlyfr yr ysgol, mewn deunyddiau eraill am gwricwlwm yr ysgol, ar wefan yr ysgol
- trefnu bod adnoddau ARhPh ar gael i rieni/ gofalwyr.

**Cynnwys gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau allanol**
Dylai'r polisi grynhoi sut mae gweithwyr iechyd proffesiynol ac asiantaethau allanol, os oes rhai, yn cyfrannu'n rheolaidd at gyflwyno'r rhaglen ARhPh.

**Monitro a gwerthuso**
Dylai'r polisi esbonio:
- pwy sy'n gyfrifol am fonitro safonau dysgu ac addysgu mewn ARhPh
- y trefniadau ar gyfer cynnwys y bobl ifanc
- sut mae'r canfyddiadau'n cyfrannu at broses hunanwerthuso'r ysgol.

**Trefniadau ar gyfer adolygu a diweddaru'r polisi**
Dylai'r polisi esbonio:
- ar ba ddyddiad y cytunodd y staff/llywodraethwyr ar y polisi

- y trefniadau ar gyfer ymgynghori â’r bobl ifanc
- pa mor aml y caiff y polisi ei adolygu.